

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 156

Rhif 50

Rhagfyr 14, 2023

50c.

GUTO YN DOD I'R GADAIR

Urddwyd y Parchg Guto Prys ap Gwynfor yn Gadeirydd Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin am y flwyddyn 2023–24 mewn cwrdd chwarter yng nghapel Bryn Iwan ar 23 Tachwedd. Trosglwyddwyd Beibl y Cyfundeb iddo gan y cyn-gadeirydd, Rhiannon Mathias.

Profiadau melys-chwerw

Dechreuodd Guto ei anerchiad drwy sôn am ddatgorffori dwy eglwys mewn un oedfa yng Ngwynfe, sef Capel Maen a Jerwsalem. Teimlai brofiad dymunol o ddychwelyd i ardal ei fagwraeth, er yn annymunol oherwydd bod dwy eglwys a chwaraeodd ran yn ei gefndir ef a'i wraig, Siân, yn dod i ben. Soniodd am brofiadau ei fywyd, a'r hyn aeth trwy ei feddwl yn ystod yr oedfa ddatgorffori.

Cofio'r cenhadon

Cofiai am wefr y Gymanfa Ganu yng Nghapel Maen, a'r cenhadon a gododd y ddwy eglwys, sydd â chofebau iddynt ar wal y capel. Cyfeiriodd at David Griffiths y buom yn cofio amdano wrth i'r Undeb ddathlu gwaith y cenhadon ym Madagascar, ynghyd ag eraill o'i deulu. Teimlai'n drist nad yw pobl heddiw yn gwybod hanes cyfoethog eu hardaloedd a'r cyfraniad a wnaeth pobl yr ardal mewn gwahanol rannau o'r byd.

Gwendid y Gyfundrefn Addysg

Dyw'r gyfundrefn addysg ddim yn dysgu hyn yn yr ysgolion heddiw. Gwnaeth Anghydfurfiaeth a Christnogion gyfraniad mawr sydd yn mynd yn angof heddiw. Bu pobl yn y gorffennol yn brwydro am bethau a gymerwn ni heddiw yn ganiataol – y gwasanaeth iechyd, y wladwriaeth les, addysg rad i blant er mwyn iddynt ddysgu darllen y Beibl. Y gydwybod Anghydfurfiol oedd yn gyfrifol amdanynt. Gweinidog yng



Ngwynfe, adeg codi nifer o'r cenhadon yn ystod y 1880au, William Thomas, oedd yn gyfrifol am sefydlu'r *British School* yng Ngwynfe. Yr Annibynwyr oedd yn gyfrifol am sefydlu democratiaeth yn yr oes fodern, gan bwysleisio fod pob aelod o'r un gwerth, a chanddynt yr un hawlau o fewn yr eglwys, yn ogystal â brwydro i bob oedolyn dros 18 gael pleidleisio. Oni ddywedodd Iesu 'Ewch a dywedwch amdanaf.' A dyna yw'n cyfrifoldeb a'n braint ni heddiw, sef adrodd yr hanes. Yn ystod y Cymun a oedd i ddilyn, gwneud 'er cof' y byddem. Gall pob un ohonom wneud rhywbeth er mwyn dweud wrth y cenedlaethau i ddod am hanes Iesu, a helpu eglwys i adeiladu eu hunain, meddai Guto.

Gweinyddwyd y Cymun yn dilyn yr anerchiad gyda chymorth diaconiaid Hermon a Bryn Iwan.

(Gweler hanes gweddill y Cwrdd Chwarter y tu mewn)

Newid trefn gwyliau ysgol

Ar gais Elsbeth Page, bu Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn trafod y newid sydd o dan ystyriaeth gan y Senedd i fyrhau gwyliau'r haf, a sefydlogi gwyliau'r Pasg. Cytunwyd gofyn i Alun Charles, Ysgrifennydd y Cyfundeb, i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i wrthwynebu'r bwriad. Bydd Alun hefyd yn ysgrifennu at Undeb yr Annibynwyr i ddweud ein bod wedi gwneud hyn, gan ofyn i Dŷ John Penri gysylltu â'r Cyfundebau eraill i argymhell eu bod hwy hefyd yn trafod y mater. Gofynnwyd am dynnu sylw ato yn *Y Tyst* hefyd. (A dyma fe!)

Am ymweld â phob capel yng Nghymru!



Dyna yw breuddwyd Eglwys Corea Cymru - ymweld â phob capel yng Nghymru. A hynny er mwyn talu nôl i ni'r Cymry am bopeth a wnaeth y cenhadon Cymreig yn mynd a Christnogaeth i Gorea yn y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif. Mae hanes y cenhadon Cymreig yn un hollol ryfeddol a gellir ei ddarllen mewn llyfrau ac amryw lefydd ar y rhyngwrdd.

Ac mae gan Eglwys Corea Cymru un capel yn llai i ymweld ag ef bellach, a hynny ar ôl iddynt fod gyda ni yn y Tabernacl, Hendy-gwyn. Cafwyd oedfa fythgofiadwy ganddynt, ac roedd dros 100 yn bresennol gyda nifer wedi ymuno gyda ni o gapeli ac eglwysi'r ardal.

parhad ar y dudalen gefn

CWRDD CHWARTER ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN

Croesawodd y cadeirydd Rhiannon Mathias bawb i'r Cwrdd Chwarter ym Mryn Iwan. Bu Keith Davies yn darllen o'r Beibl a Nia Jones yn gweddio yng nghwrdd y bore, a Suzanne Davies ac Elfed Davies yn y pnawn. Meinir James a gyfeiliodd yn y ddau gyfarfod.

Eglwys fywiog iawn

Ar ôl nodi bod hanes Bryn Iwan i'w gael yn llyfr Yvonne Francis, dywedodd y Parchg Gareth Ioan bod 76 aelod gan yr eglwys wledig hon heddiw, yn ogystal â nifer o blant ac ieuencid, a chyfeillion yr Achos. Mae ganddi 12 organydd, 13 arweinydd y gân, a 5 swyddog technegol o blith yr ieuencid.

Yr Undeb

Nodwyd bod y Cyfarfodydd Blynyddol yn Rhosllannerchrugog eleni wedi bod yn llwyddiannus iawn, a bod angen dewis dau berson o bob cyfundeb i fynychu cyfarfodydd y Cyngor am y cyfnod 2024-27. Mae apêl yr Undeb, Ffynhonnau Byw, wedi gweld cyfraniadau hael yn dechrau cyrraedd Tŷ John Penri. Ychwanegwyd bod lansiad wedi bod ar Zoom y noson gynt, ac mai Jean Lewis yw'n cysylltydd ni. Cynhelir Undeb 2024 ar gampws Nantgarw Coleg y Cymoedd.

MIC

Bydd gweithgarwch o dan ofal Jack Newbold yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, 27 Ionawr 2024, yn y Gerddi Botaneg, gyda rhagor o fanylion i ddilyn.

Cymorth Cristnogol

Sefydlwyd Apêl Nadolig, a cheir deunydd ar y wefan. Nodwyd y gwrthdaro erchyll yn Israel/Palesteina. Mae Cymorth Cristnogol yn galw am ddod a'r rhyfel i ben, a chytunwyd i anfon gair at yr elusen i'w chefnogi yn ogystal ag ysgrifennu at Senedd Cymru i erfyn ar yr Aelodau i gefnogi cadoediad. Bydd Tom Defis a Guto Prys yn llunio'r cynnig.

Penderfynwyd anfon £500 i Gymorth Cristnogol yn ogystal ag annog eglwysi i gyfrannu.

Pwyllgor Bugeiliol

Pwysleisiwyd bod yn rhaid cael tri ymddiriedolwr ym mhob eglwys, a doeth yw cael pedwar rhag ofn i un ffael gwneud ei g/waith yn ddisymwth; yr angen i edrych ar y gweithredoedd; yswirio'n llawn yr holl eiddo. Pe bai unrhyw eglwys yn dymuno gwybodaeth ychwanegol neu gymorth gellir cysylltu â Tom Defis.

Pwyllgor Cenhadol

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd o gwmpas y Cyfundeb ym mis Chwefror, ac ymweliad Carwyn Siddall i sôn am y cymorth sydd i ddod, anfonodd y Pwyllgor Cenhadol holiadur i bob eglwys gan ofyn iddynt ei drafod yr holiadur ac ymateb erbyn diwedd Hydref. Hyd yn hyn atebodd 13 eglwys, a chytunwyd ffonio i atgoffa'r eglwysi sydd heb ateb, cyn dadansoddi'r atebion er mwyn gweld pa faterion sydd fwyaf o angen ar yr aelodau. Cytunwyd hefyd y gellid rhannu arfer da.

Adroddiad y Cydlynnydd Cenhadol

Yn absenoldeb Alun Lenny oherwydd cyfarfod yng Nghaerdydd adroddwyd ei fod yn gwneud ei waith yn wirfoddol bellach, ac mae'n cadw'r wefan yn gyfredol gyda hysbysebion, ac adroddiadau a lluniau o'r Cwrdd Chwarter. Ymwelodd 18,399 â'r wefan eleni, tua 2,000 yn fwy na'r llynedd. Ychwanegodd wybodaeth hefyd ar Facebook y Cyfundeb, a hysbysebu'r rhai sydd ar ei fas data am ddigwyddiadau, e.e. am gynhadledd i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd, holiadur y Pwyllgor Cenhadol i'r Eglwysi, a'r cwrs ar Hanes yr Eglwys. Anfonodd adroddiadau i'r *Tyst* a *Cwlwm* ar y Cwrdd Chwarter a gynhaliwyd ym Mwlch-y-corn. Mae hefyd wedi dechrau casglu deunydd ar gyfer y

Gyda'n Gilydd nesaf a ddaw mas erbyn Nadolig. Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch i Alun am ei waith ar hyd y blynyddoedd

Adroddiad y Trysorydd

Apeliwyd am i gyfraniadau'r eglwysi, sef 20c. yr aelod, ddod i law cyn diwedd y flwyddyn. Cytunwyd i gyfrannu eleni at yr un cyrff ag arfer.

Ethol swyddogion

Etholwyd y canlynol. Is-gadeirydd: Jean Lewis; is-ysgrifennydd: Tom Evans; is-drysorydd: Huw Michael; is-gofnodydd y Pwyllgor Gwaith: Beti-Wyn James(G); is-gofnodydd y Cwrdd Chwarter: y Pwyllgor Gwaith i drafod.

Rhaglen Arloesi a Buddsoddi

Nodwyd fod angen talu'n llawn i'r Undeb eleni os ydy eglwys am wneud cais am grant y flwyddyn nesaf. Siaradodd Annalyn Davies a Gareth Ioan ar *Bwrw Golwg* ar y radio y Sul cynt am yr hyn a wnânt hwy yn lleol, diolch i'r cymorth a dderbyniwyd.

Cyfarfod Digidol Cyfundebau Cymru

Ymunodd Tom Evans a Rhiannon Mathias â'r cyfarfod hwn. Sylwyd fod tipyn o weithgaredd yn digwydd yn y cyfundebau, ac anfonwyd adroddiad allan cyn y Cwrdd Chwarter. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw hi i ysgrifenyddion eglwysi sicrhau bod yr aelodau yn clywed am ddigwyddiadau'r Undeb a'r Cyfundeb.

Bydd y Cwrdd Chwarter nesaf ar ddydd Iau, 14 Mawrth 2024, yn Heol Awst, am 10.30 a 1.30. Olga Williams a estynnodd groeso cynnes i'r cyfarfodydd, gan nodi'r brwdfrydedd yn yr eglwys oherwydd bod Beti-Wyn James yn mynd i ehangu ei gofalaeth bresennol wrth ddod yn weinidog ar Heol Awst (ac ar Elim).

Dorian Williams o Fwlch-y-corn a ddiolchodd i Guto Prys am ei ymrwymiad a'i egni ysbrydoledig, i bawb am lwyddiant y dydd ac am y croeso cynnes a deimlwyd ym Mryn Iwan.

Erthygl yn seiliedig ar nodiadau Joan Thomas, Cofnodydd y Cyfundeb.



Yr Adran Gydenwadol

Rhwydwaith Newydd dros Heddwch a Chyfiawnder

Daeth unigolion a mudiadau o bob cwr o Gymru ynghyd ddydd Iau, 30 Tachwedd, i sefydlu Heddwch ar Waith, rhwydwaith ymgyrchu newydd dros heddwch a chyfiawnder.

Mae Heddwch ar Waith (*Peace Action Wales*) wedi ei ariannu trwy Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree gyda'r bwriad o gynyddu'r cydweithio rhwng mudiadau heddwch a chyfiawnder er lles pobl a chymunedau Cymru a'r byd.

Mae'r rhwydwaith am i bobl fod yn ganolog i'r hyn fydd Heddwch ar Waith yn ei gyflawni, gan eu harwain yn eu hamcanion. Yn rhan o'r gwaith mae Heddwch ar Waith wedi sefydlu tair ffrwd benodol:

- mapio hyd a lled militariaeth yng Nghymru
- sefydlu dulliau o ddosbarthu a rhannu gwybodaeth ar fod yn ddi-drais
- adeiladu rhwydwaith o lobïwyr dros gyfiawnder.

Un o brif amcanion Heddwch ar Waith fydd cydweithio â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol tuag at y nod o wneud Cymru'n Genedl Heddwch. Drwy greu cenedl â heddwch wrth ei chalon, mae modd grymuso pobl i newid cyfeiriad ein heconomi, ein cyfundrefn addysg a'n diwylliant tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy a diogel.

Mae'r hyn sy'n digwydd yn Gaza, Wcráin, Sudan a sawl man arall yn profi bod angen edrych ar heddwch fel ateb i wrthdaro ac nad oes modd cael cyfiawnder trwy dulliau treisgar

Sam Bannon o Heddwch ar Waith sy'n ymhelaethu:

'Mae Heddwch ar Waith yn gyfle euraidd i Gymru arwain ar greu cymdeithas gyfiawn a theg. Gan weithio fel rhan o'r ymgyrch




Llun: Marian Delyth

ryngwladol i weithredu'n wirioneddol dros heddwch, mae'r rhwydwaith yn ein galluogi i ddechrau buddsoddi mewn dulliau sy'n rhoi pobl o flaen elw a thrachwant pŵer.'

Am fwy o wybodaeth neu os hoffech fod yn rhan o weithgorau Heddwch ar Waith, cysylltwch â: heddwchArWaith@gmail.com

Trydydd Sul yr Adfent



Gweddïwn

Arglwydd, creaiſt ni yn bobl greadigol. Diolch am ddawn rhai i greu prydfwerthwch o bethau di-nod.

Fel mae Khaleda Begum yn cysylltu'r bîds lleiaf i greu campweithiau cywrain, cofiwn ein bod ni wedi ein cysylltu â'n brodyr a'n chwiorydd ar draws y byd yr Adfent hwn.

Ac wrth i ni ddysgu am brofiadau eraill, down i sylweddoli ein bod yn rhan o dy gampwaith amrywiol di.

Wrth i ninnau yma yng Nghymru ddisgwyl i oleuni Seren Bethlehem oleuo ein bywydau unwaith eto eleni, cofiwn am Khaleda, ei theulu, ei phartneriaid busnes a'i chymuned.

Diolch bod ei harweiniad i'w theulu a'i chymuned a'i dyfalbarhad wrth sefydlu ei busnes yn goleuo llwybrau i ferched

ifanc Bangladesh allu llwyddo a ffynnu.

Bendithia waith Aid Comilla a holl bartneriaid Cymorth Cristnogol sy'n cefnogi merched fel Khaleda i ddysgu sgiliau newydd er mwyn gwella eu sefyllfa a dod â gobaith a llawenydd i'w bywydau a'u cymunedau.

Boed i neges o obaith Gŵyl y Geni ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb i fod yn oleuni yn y mannau tywyll hynny yn ein byd heddiw.

Mae'n amser i ni gysylltu o'r newydd â thi, Arglwydd, a thrwy hynny â'th blant ar draws y byd.

Derbyn ni, nertha ni, goleua ein ffordd ac arwain ni

Yn enw Iesu,

AMEN.

Mererid Mair Williams
Caernarfon

Cyflwyno Medalau Gee yn Hermon, Pencader a'r Talwrn



O'r chwith i'r dde: Aled Davies, Haulwen Lewis, a dderbyniodd y fedal eleni, a Nancy Jones, a dderbyniodd ei medal rai blynnyddoedd yn ôl, ac sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed



O'r chwith i'r dde: Guto Prys ap Gwynfor, gweinidog yr eglwys, ac Aled Davies gyda Gwyn Howell Jones a'i briod



Plant Ysgol Sul y Tabernacl, Pencader, ynghyd â Haulwen Lewis, Chris Bolton, y gweinidog, ac Aled Davies



Rhan o'r gynulleidfa a ddaeth ynghyd i Siloam, Talwrn, gyda Gwynfor Parry yn eistedd yn y canol



Gwyn Howell Jones yng nghwmni ei deulu



O'r chwith i'r dde: Bethan Jones, Gwynfor Parry ac Aled Davies

Yn ystod mis Tachwedd cafwyd cyfle i ymuno â thair cynulleidfa leol er mwyn cyflwyno medal Gee i un o'r ffyddloniaid yno. Wrth ymweld â chapel Hermon ger Cynwil Elfed, capel y Tabernacl ym Mhencader a chapel Siloam, Talwrn, ger Llangefni, roedd sawl peth yn gyffredin bob tro.

Yn y lle cyntaf, roedd y croeso yn un cynnes, gyda chynulleidfaoedd lleol yn llenwi'r capeli – yn gymysgedd o aelodau ffyddlon a gweithgar, cymdogion a theulu'r sawl oedd yn derbyn y fedal, a chyn-aelodau'r ysgol Sul wedi gwneud ymdrech arbennig i fod yn bresennol.

Yn ail, er mai medal am ffyddlondeb i'r ysgol Sul oedd yn cael ei chyflwyno,

roedd yr hanes a gyflwynwyd gan weinidogion a swyddogion yr eglwys am y rhai oedd yn derbyn y fedal yn llawn teyrngedau o brysurdeb a gweithgarwch dros flynyddoedd lawer.

Guto Prys ap Gwynfor a gyflwynodd hanes David Gwyn Howell Jones i ni yn Hermon, Cynwil Elfed; Chris Bolton soniodd am weithgarwch Haulwen Lewis yn y Tabernacl, Pencader, yn arbennig ei gofal am y plant a'r bobl ifanc; a Bethan Jones yn Nhalwrn, ger Llangefni, yn sôn am gyfraniad Gwynfor Parry i holl weithgarwch yr eglwys.

Yn drydydd, wedi'r seremoni o gyflwyno'r medalau Gee gan Aled Davies ar ran y teulu Gee, roedd yna wledd wedi ei

pharatoi bob tro, un ai yn y festri neu yn Oriel Môn.

Mewn dyddiau a fu, trefnwyd un cyfarfod yn y de ac un yn y gogledd, ond ers y cyfnod clo aed ati i'w trefnu'n lleol. Heb amheuaeth, bu hynny'n fendith, o weld yr eglwys a'r gymuned gyfan yn ymgynnull i ddangos eu cefnogaeth a'u gwerthfarrogiad i rai a wnaeth gyfraniad arbennig yn eu milltir sgwâr.

Cofiwch fod y medalau'n cael eu cyflwyno'n flynyddol, a bod yn rhaid i enwau'r rhai a enwebir fod dros 75 oed. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn medal yn 2024 yw 30 Mehefin. Mae ffurflen gais ar gael o wefan ysgolsul.com.

Gair Duw ar Waith

gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrnodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 12
Darlenniad: 2 Brenhinoedd 4:42–4
17 Rhagfyr



Cyflwyniad
Bydd cyfnod Eliseus a’r hanesion sy’n gysylltiedig ag ef yn rhyfeddol, ac yn hanes y gŵr o Baal-salisa yn dod â’r bara sanctaidd at ŵr Duw cawn gysgod o hanes Iesu yn troi byrbryd bachgen bach i fod yn ddigon i fwydo’r miloedd.

Pan ddeallwyd ganddynt fod y rhoddwr am gynnig y bara i’r cant o wŷr a oedd gerllaw, ymatebodd yr offeiriaid a wasanaethai yn y cysegr drwy ddweud nad oedd digon yno ar gyfer cymaint o bobl. Eto, ar anogaeth rhoddwr y bara, gwahoddwyd y dynion i fwyta, ac ar y diwedd roedd pawb wedi eu digoni, â bwyd yn weddill.

Nid yw cofnodydd Llyfr y Brenhinoedd yn cynnig eglurhad nac esboniad, ond bod yr hanes yn gwahodd pobl at y byrddau a rhywfodd bydd digon ar gyfer y sawl sy’n cyrraedd. Dywed lawer am ffydd a rhyfeddod yr hyn a wnaeth Duw gyda’r ychydig y bydd dynion yn ei gyflwyno. Dywed lawer hefyd am draddodiad anrhydeddus yr Iddew o rannu ac ymddiried yn llaw Duw.

Myfyrdod
Bydd lawer o eglwysi yn manteisio ar y cyfleoedd a ddaw i ymgynnull o gwmpas y byrddau, ac mae traddodiad anrhydeddus gan yr eglwysi o gwmni a mwynhau pryd, boed ar ddiwedd oedfa neu gynhadledd, neu ar achlysuron dathlu yn hanes yr eglwys.

Ceir enghreifftiau hefyd o eglwysi’n cydweithio ag eraill i drefnu darpariaeth ar gyfer dieithriaid adeg y Nadolig. Bydd rhai Cristnogion sydd heb deulu yn ei weld fel cyfle i wasanaethu eraill tra ceir hanes am bobl yn ildio’u pryd bwyd arferol eu hunain er mwyn dangos bod yr eglwys yn uniaethu â’r sawl sy’n ddigartref ac yn ddigysur. Ceir enghreifftiau hyfryd o

garedigion felly yn Nhrecynon, Aberdâr, a Chlydach yng Nghwm Tawe. Bu sawl tref yn cynnig gwasanaeth tebyg dan faner ‘Crisis at Christmas’, a byddai’n braf i ni glywed am ardaloedd eraill sydd wedi mentro gyda chynlluniau tebyg. Nid pawb all wneud hyn, wrth reswm, fel pob cynllun arall, ond mae’n ymdrech brydferth i ddangos bod yr eglwys yn gynhwysol a pharod ei gwasanaeth.

Un o’r golygfeydd heriol yw gweld pobl sy’n amlwg ar eu cythlwng yn edrych drwy ffenestri siopau a thai bwyta crand, yn gweld yr hwyl a’r gyfeddach sydd yn digwydd yn ystod mis Rhagfyr, a hwythau yn byw yn nhywyllwch eu hunigrwydd. Faint o bobl sydd yn eich ardal chi fydd yn treulio dydd Nadolig yn ddi-gwmni?

Gweddi oedfa’r Adfent

Yn rhan o ddathliadau o bob math ar draws yr holl fyd, ry’n ni yma fel cymuned eglwysig yn nhymor yr Adfent.

Cawn ein cymell i edrych ymlaen yn eiddgar at eni plentyn, a hwnnw’n blentyn a anwyd mewn amgylchedd tlawd a chyffredin. Yn yr oedfa hon ceisiwn beidio â gweld stori’r Nadolig fel stori un tro. Nid stori ar gyfer un diwrnod yw hi, gan ei rhoi o’r neilltu fel y goeden Nadolig a’r tinsel tan i ni eu hailddefnyddio ymhen blwyddyn.

Gogoniant stori’r Dolig yw ei gallu i’n newid ni.

Os ddathlwn y dydd, ac wedyn symud ymlaen, ry’n ni’n israddio’r stori i fod yn un hud a lledrith sy’n chwarae ei rhyfeddodau arnom ni am ddiwrnod neu ddau yn unig.

Tybed a allai eglwys gynnull criw o bobl felly a phwy a wyr y byddai hynny yn creu cymuned Newydd o ffrindiau i’r flwyddyn newydd?

Gweddi

Arglwydd y torthau a darparwr y Bwrdd Sanctaidd, dyro i ni weledigaeth o’r hyn sy’n bosibl yn ein bro. Maddau i ni os byddwn yn chwilio am yr agweddau negyddol cyn rhoi o’n gorau i’w goresgyn. Dyro i ni dy weld di wrth y byrddau ac yn troi’r pryd bychan yn wledd y bywyd. Amen.

Cwestiynau i’w hystyried

- 1 A oeddech wedi synhwyro digwyddiad syml yng nghyfnod Eliseus yn gysgod o wyrth bwydo’r miloedd yng ngweinidogaeth Iesu?
- 2 A fydddech yn synnu pe bai un o aelodau eich cymuned yn dod â rhywbeth annisgwyl atoch ac yn dweud mai dyna oedd/yw gair yr Arglwydd?
- 3 Beth yw cenhadaeth ein dathliad o’r cymunedeb?
- 4 Sut mae diffinio unigrwydd mewn tyrfa?
- 5 A yw’r term ‘Crisis at Christmas’ yn gwrth-ddweud ei hunan? Ond datrys argyfwng dynoliaeth oedd amcan y Nadolig cyntaf?

Gadewch i ni gario stori’r Dolig i bob rhan o’n bywydau.

Gadewch i ni gario llawenydd a gobaith, tangnefedd a chariad i bob dydd o’n bywydau.

Gadewch i ni ddysgu rhannu ysbryd y Dolig gyda phob person y byddwn ni’n ei gyfarfod, gydol y flwyddyn.

Gadewch i bob un ohonom fod yn bont rhwng Nefoedd a Daear ... am fwy nag un diwrnod yn unig.

Wrth i ni wahanu ar ddiwedd oedfa, gadewch i ni fod yn blant yr Adfent, a phlant ysbryd y Nadolig, a hynny wrth ddathlu a chydweithio gydol y flwyddyn sydd i ddod i fod yn halen y ddaear ac yn oleuni i’r byd.

Amen.

Geraint Rees

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 17 Rhagfyr – Yr Hen Garolau Cymreig
Ar drydydd Sul yr Adfent bydd Ryland Teifi yn pori drwy’r archifau ar drywydd ein hetifeddiaeth gyfoethog o garolau Cymreig yn Amgueddfa Sain Ffagan. Ac i’n paratoi at y Nadolig, cawn berfformiad arbennig gan Ryland ei hun.

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 17 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siôn Rhys Evans

Oedfa Radio Cymru
Sul, 17 Rhagfyr, am 12yp
Oedfa dan ofal Owain Davies, Llanrwst

Y Parchedig Ddr Terry Thorpe Edwards (1933-2023)

Hunodd y Parchedig Terry Edwards yn dawel yn yr Iesu yn Ysbyty Glangwili ar nos Wener, 10 Tachwedd, 2023.

Unig blentyn Edward a Lilly Edwards oedd Terry. Roedd teulu ei dad â'i wreiddiau'n ddwfn yn Aberystwyth ond un o Swydd Efrog oedd ei fam. Perthynai ei fam i'r Eglwys Gatholig Rufeinig a chafodd Terry ei fagu o dan adain yr eglwys honno. Graddiodd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ac yna ennill doethuriaeth ar gyflawni gwaith ymchwil ar yr athronydd Jean-Jacques Rousseau.

Cafodd ei swydd gyntaf yn athro Ffrangeg yn ysgol ramadeg Bargoed. Wedi dwy flynedd yno penodwyd ef yn ddarlithydd mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol Bryste.



Aelod ffyddlon

Ym Margoed denwyd ef i ymddiddori yn y Gymraeg ac i ddysgu'r iaith. Roedd Terry'n ieithydd galluog iawn a meistrolodd y Gymraeg mewn byr o dro. Ym Mryste daeth o dan adain y Gymdeithas Gymraeg gan ddechrau mynychu'r oedfaon yng nghapel yr Annibynwyr yn y ddinas honno. Yno profodd gymdeithas gynnes yn yr Arglwydd.

Wedi ymdeol o'i swydd ym Mhrifysgol Bryste dychwelodd Terry i Aberystwyth i ddarlithio'n rhan amser yn Adran Ffrangeg Prifysgol Aberystwyth. Mewn byr o dro cawsom y fraint o'i dderbyn yn aelod yn eglwys Seion, Stryd y Popty. Roedd yn aelod ffyddlon a fynychai'r ddwy oedfa a y Sul ac yn gyson ei bresenoldeb yn y dosbarth Beiblaidd a'r

cwrdd gweddi wythnosol. Gwelai'r angen i dyfu yn y ffydd wrth gael ei addysgu yn y Gair ac wrth wrando gyda chwilfrydedd iach wrth i'w gydaelodau rannu eu profiadau ysbrydol. Bob tro byddai teulu'r eglwys yn dod ynghyd yn Seion byddai Terry'n bresennol ac yn gwbl barod i dorchu llewys i wasanaethu pa beth bynnag fyddai'r angen.

Ei ordeinio gan yr Annibynwyr

Ym 1990 etholwyd Terry yn ddiakon. Yr adeg honno dechreuodd fynychu dosbarthiadau allanol Coleg yr Annibynwyr Cymraeg a chafodd flas anghyffredin ar yr hyfforddiant a dderbyniodd. Mewn byr o dro ymdeimlai â galwad Duw i'r weinidogaeth Gristnogol. Cadarnhawyd yr alwad gan gylch o eglwysi yng ngorllewin Meirionnydd – Aberdyfi; Bethesda, Tywyn; Carmel, Pennal; Peniel, Llwyngwrl a Saron, Brynchrug. Ar 16 Ebrill, 1994 fe'i hordeiniwyd yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist mewn oedfa arbennig ym Methesda, Tywyn. Bu'n was ffyddlon i'r Arglwydd Iesu Grist yng ngorllewin Meirionnydd am saith mlynedd ar hugain. Bu iddo nid yn unig fugeilio eglwysi ei ofalaeth, bu hefyd yn weinidog answyddogol i lawer o eglwysi'r cylch o bob enwad a mawr yw eu dyled iddo.

Bu Terry'n ffyddlon i Gyfundeb Annibynwyr Meirion – yn ysgrifennydd y cyfundeb o 1997–2003 ac yn gadeirydd yn 2008.

Pregethu gogoniant Iesu

Bod yng nghanol ei bobl a'u gwasanaethu oedd ei fwynhad ac fe brofodd garedigrwydd a chroeso arbennig ar aelwydydd y ffyddloniaid. Ni fynychai unrhyw oedfa heb iddo baratoi'n drylwyr. Pregethu o'r efengylau a wnâi gan mwyaf gan dynnu sylw at ddysgeidiaeth Iesu ac at ogoniant person Iesu. Un o'i hoff emynau oedd eiddo J. J. Williams, Treforys:

Pan fo lleisiau'r byd yn galw
O'r anialwch arnom ni,
Clywnn dyner lais yr Iesu
Yn ein cymell 'Dilyn fi.'

Cadw ni, O! Dduw rhag gwranddo,
Ar dwyllodrus lais y byd;
Nid oes dim i'n henaidd ganddo
Yn ei goffrau gwych i gyd.

Derbyn gawn, o wrando'r Iesu,
Holl drysorau gras y nef,

A mwynhau tragwyddol wynfyd
Dim ond in ei ddilyn ef.

Dywedodd Pedr am ei Waredwr, yr Arglwydd Iesu Grist, 'Ydy, mae'n ... werthfawr yn eich golwg chi sy'n credu.' (I Pedr 2:7) Roedd yr Arglwydd Iesu yn werthfawr ac yn drysor i Terry ac roedd ef wrth weinidogaethu am i bobl ei ofal weld a phrofi'r trysorau sydd gan Grist ar ein cyfer – trysor ei gariad, ei faddeuant, ei dangnefedd a'i bresenoldeb. Ei ffydd yng Nghrist oedd yn ennyn ei garedigrwydd a'i ofal a'i gonsym dros bobl Pennal a Thywyn, Brynchrug ac Aberdyfi ynghyd â Llwyngwrl. Cerddodd yr ail filltir drostynt am mai dyna yw ewyllys Iesu Grist.

Cymreictod, cwmniaeth, cred

Pan ymadawodd Terry ag Aberystwyth i gychwyn ar ei swydd gyntaf ym Margoed prin fod ganddo air o Gymraeg. Yno trwy gyfeillgarwch Cymry Cymraeg eu hiaith oedd yn athrawon yn yr un ysgol ag ef dysgodd Gymraeg a chael gwefr o fod yn rhan o'r diwylliant Cymraeg. Darganfu ei hunaniaeth a chael boddhad mawr yn ei Gymreictod.

Bu Terry'n byw ar ei ben ei hun y rhan helaethaf o'i oes. Roedd cwmniaeth a chymdeithas â phobl eraill yn arbennig o werthfawr yn ei olwg. Ystyriai Terry hi'n fraint o gael perthyn i wahanol gymdeithasau ond y fraint fwyaf yn ei olwg oedd cael perthyn i Eglwys yr Arglwydd Iesu a phrofi cymdeithas a gofal Teulu'r Ffydd.

Bu ei gred yn angor gadarn iddo a hynny i gymaint graddau nes iddo ymdeimlo â'r alwad i'r weinidogaeth a'r dyhead i arwain addoliad a phregethu'r efengyl. Gwyddai am angen mawr y byd am ddynion a merched sy'n dilyn Crist ac yn efelychu yn ei nerth ei gariad a'i faddeuant. Gwyddai am angen dwfn dynion a merched am y cariad a'r maddeuant a'r gras sydd yng Nghrist. I Terry ac i blentyn ffydd mae yna ddigon yng Nghrist i ddiwallu'n anghenion dyfnaf ni hyd yn oed yn wyneb angau. Wynebodd derfyn ei daith ddaearol yn gwbl dangnefeddus. Cynhaliwyd oedfa o ddiolchgarwch am ei fywyd yn Seion, Aberystwyth o dan arweiniad y Parchg Andrew Lenny yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig Wynne Davies, Ifan Mason Davies a Peter Thomas.

Coffa da am Terry, gŵr addfwyn, tawel a diymhongar oedd yn caru'r Gymraeg ynghyd â'r diwylliant Cristnogol Cymraeg, gŵr a fu'n ffyddlon yng ngwasanaethu yr Arglwydd Iesu Grist.

Andrew Lenny

Golygyddol

Roedd tipyn o hw-ha yn y *Carmarthen Journal* wythnos ddwetha am nad oedd goleuadau Nadolig eleni ym mhrif rodfa fasnachol tre Caerfyrddin.



Mae gweddill y dre yn dipyn o sioe i'w gweld, gyda sawl coeden Nadolig fawr a goleuadau trawiadol ar hyd y strydoedd hir. Ond am nad oedd y cwmni preifat sy'n berchen Rhodfa Santes Catrin wedi goleuo'r rhan yna o'r dre brysur eleni (am ei fod ar werth) gallech chi feddwl bod y byd ar ben! Beth yw'r Nadolig heb oleuadau llachar, holai'r *Journal*? Gallwn ateb trwy ofyn: Beth yw'r Nadolig heb Iesu Grist, Goleuni'r Byd? 'Yr wyf fi wedi dod i'r byd yn oleuni, ac felly nid yw neb sy'n credu yno fi yn aros yn y tywyllwch,' meddai Iesu. (Ioan 12:46)

Baglu yn y tywyllwch

Pa mor aml ydyn ni'n cerdded mewn tywyllwch llwyr y dyddiau hyn, mewn 'caddug dudew' fel y dywed Eiseia? Mae lampau'r stryd, goleuadau'r car a golau arall o bob math yno i oleuo'r nos. 'Nôl

ym 1971, cyn oes y disco, cofiaf ddod adre o dwmpath dawns yr Urdd, a'r bws yn fy ngollwng dros filltir o'm cartref gwledig am hanner nos. Roedd y noson mor ddu â bola buwch, a'r tywyllwch fel rhywbeth solet. Er fy mod i'n adnabod yr heol fach fel cefn fy llaw, o fewn canllath roeddwn wedi cerdded mewn i'r clawdd! Ymlaen â fi eto gan geisio dilyn y ffordd ym map y cof. Ar ôl tua deng munud dyma olau car yn dod o'r pellter y tu ôl i mi. Elwyn Brynteg yn ei Ford Cortina, oedd wedi bod mas yn caru, ac fe gefais lifft adre gyda fe. 'Os yw rhywun yn cerdded yn y nos, y mae'n baglu, am nad oes golau ganddo,' dywedodd Iesu. (Ioan 11:10) Heb ei oleuni fe, cerdded mewn i'r clawdd neu'r gwtwr nawn ninnau yn ein bywydau hefyd.

Rhyfeddodau'r sêr

Er mor fendithiol yw lampiau'r stryd, maent yn boddi golau'r sêr yn ein trefi a'n dinasoedd. Ac nid yw'r goleuadau Nadolig artiffisial i'w cymharu â rhyfeddod môr o sêr ar noson glir o ben bryn neu fynydd yng nghefn gwlad, a golau llachar y lleuad, neu 'lamp y plwyf' fel byddai hen bobol yn galw'r lloer slawer dydd cyn oes lampau stryd y cyngor. Adlewyrchu golau'r haul wna'r lleuad, wrth gwrs, a gorchymyn ei ddisgyblion i adlewyrchu gogoniant Duw wnaeth Iesu: 'Chwi yw goleuni'r byd. Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn. Ac nid oes neb yn goleuo cannyll ac yn ei rhoi dan lestr, ond yn hytrach ar

ganhwyllbren, a bydd yn rhoi golau i bawb sydd yn y tŷ. Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd.' (Mathew 5:14-16)

Braint a llawenydd

Sylwer mai craidd gorchymyn Iesu Grist yw'r geiriau 'gweithredoedd da' a hynny er mwyn dwyn gogoniant i Dduw. Ffydd sy'n ysgogi'r fath weithredoedd, ac nid yw'r naill heb y llall yn werth dim, fel meddai Epistol Iago. Fel y lleuad, sy'n aml yn ei gwendid neu'n gudd tu ôl i gymylau, digon gwan all ein hadlewyrchiad ninnau o ogoniant Duw fod - wel, yn fy achos i 'ta beth. Ac eto, ein braint a'n llawenydd fel pobol sy'n arddel enw'r Gwaredwr trwy alw'n hunain yn Gristnogion yw gwneud yr hyn a allwn i daflu ychydig oleuni i fywydau'r rhai sydd mewn angen o bob math y Nadolig hwn.

Y Goleuni Tragwyddol

A diolch i Dduw am y Nadolig; diolch am lawenydd diniwed plentyn bach yn agor anrhegion; diolch am gael dathlu gyda ffrindiau a chymdogion; diolch am ganu carolau sy'n dwyn i gof sawl Nadolig a fu; a diolch, ar ôl i'r goleuadau llachar ddod lawr, am y goleuni tragwyddol a fydd yn dal i lewyrchu mewn tywyllwch o bob math, y goleuni na all y tywyllwch fyth ei ddiffodd.

Alun Lenny

Y Cwmni Bach, podlediad yr Undeb

Mae gennym ni westai arbennig ar bodlediad *Y Cwmni Bach* ym mis Rhagfyr fel anrheg Nadolig cynnar i chi.

I gychwyn ar dymor yr Adfent, mi gawsom gwmni Dafydd Iwan yn y stiwdio Tŷ John Penri yn Abertawe. Galwodd Dafydd draw i rannu ychydig o'i hanes ac mae'n hanes difyr iawn, o'r dechreuadau ym Mrynaman, i Lanuwchllyn a thu hwnt. Y mae Dafydd yn enw cyfarwydd iawn i ni gyd ers sawl degawd ond erbyn hyn mae wedi dod yn enw rhyngwladol o ran y byd pêl-droed ac mae ei gân eiconig 'Yma o Hyd' wedi tanio dychymyg cefnogwyr pêl-droed (ac eraill) drwy'r byd.

Y mae Dafydd ei hun 'yma o hyd' achos bu wrthi'n cnau, yn ymgyrchu ac yn dweud am Iesu ers degawdau – iddo ef mae'r cyfan oll yn perthyn i'w gilydd, ei Gristnogaeth a'i

genedlaetholdeb, does dim modd cael un heb y llall.

Y mae podlediadau misol *Y Cwmni Bach* gan yr Undeb wedi bod yn mynd ers dros flwyddyn bellach, mae'n rhan o genhadaeth ddigidol MSP4 yr Undeb a noddir gan CWM.

Mae'r penodau blaenorol yn cynnwys sgysiau difyr gyda phobl fel y canwr Delwyn Siôn, Arfon Jones fu'n gweithio mor ddygn ar beibl.net, Rhun Dafydd,

cadeirydd Cymdeithas y Cymod, Dewi Myrddin Hughes cyn Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, ac Emllyn Davies Gwaelod-y-garth fu'n gweithio ym myd y cyfryngau ac sydd wedi bod yn arwain ar eglwys Dementia-gyfeillgar.

Mae'r podlediadau ar gael i'w gwylio ar wefan yr Undeb, neu i wrando arnynt – maent ar gael ar gyfryngau Spotify, Apple ac YouTube hefyd. Sgysiau hamddenol a hwyliog ydynt gyda gwesteion amrywiol o bob cwr o Gymru, sy'n trafod eu bywydau, eu profiadau, eu ffydd, a phob mathau o bethau eraill hefyd. Does dim

un o'r penodau yr un peth a phob un yn werth eu clywed neu eu gwylio. Mae'r podlediadau yn ffordd i ni rannu ein straeon gyda'n gilydd, i drafod y pethau sy'n bwysig i ni heddiw. Ac wrth gwrs, mi fedrwn chi barhau â'r sgwrs ymhlith eich gilydd.

Bydd gennym fwy o westeion yn ystod 2024 ond am y tro, gobeithio y cewch chi hwyl ar y gwranddo.



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Am ymweld â phob capel yng Nghymru! – parhad

Cymdeithasu hyfryd

Roedd yr oedfa wedi selio ar hanes y
cenhadon Cymreig a'r testun oedd geiriau
Iesu yn Efengyl Ioan 12:24 'Yn wir, yn
wir, rwy'n dweud wrthyich, os nad yw'r
gronyn gwenith yn syrthio i'r ddaear ac
yn marw, y mae'n aros ar ei ben ei hun;
ond os yw'n marw, y mae'n dwyn llawer
o ffrwyth.'

Yn dilyn yr oedfa cafwyd cymdeithasu
hyfryd dros bandedd a lluniaeth ysgafn ac
aeth y cymdeithasu ymlaen am amser hir
gyda neb yn awyddus i fynd adref!

Gwahoddiad?

Beth am wahodd Eglwys Corea Cymru
(sydd wedi ei lleoli yng Nghaerdydd) i'ch
capel chi? Byddant yn falch clywed
wrthyich a gellir cysylltu gyda nhw trwy
e-bostio Jacob ar:
deodian1006@gmail.com neu trwy tecst
neu alwad ffôn ar 07891 932 478.

Guto Llywelyn**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG****Hysbyseb Swydd****Ysgrifennydd Gweinyddol****Llawen-amser 37.5awr yr wythnos****Chwilio am her? Awydd newid gyrfa?**

Dyma gyfle cyffrous i berthyn
i dîm blaengar sy'n gweinyddu
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ydych yn meddu ar y sgiliau
i reoli cyllid a chynnig arweiniad i'r
Undeb ar faterion ariannol a statudol?

Oes gennych y ddawn i ddatblygu
perthynas gydag eglwysi ar
faterion yn ymwneud â'u cyllid, statws
elusenol a chyfrifoldebau statudol?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr neu
am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd,
cysylltwch â'r

Ysgrifennydd Cyffredinol,**Tŷ John Penri,**

**5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ**

Ffôn: 01792-795888**E-bost: undeb@annibynwyr.cymru****Dyddiad cau: 8 Ionawr 2024**

CAERSALEM PONTYBEREM

Teilwng yw'r Oen

Cafwyd noson i'w chofio yng Nghaersalem ynghwmni Côr Llanddarog a'u datganiad
grymus o *Teilwng yw'r Oen*. Diolch am noson wefreiddiol.

**Siôn a Siân**

Nos Lun 7 Tachwedd 2023 cynhaliwyd noson o hwyl yn y festri. Bu tri phâr yn
cystadlu fel Siôn a Siân gan gynnwys Eleanor a Dai, Gareth a Janet, Geraint a Sara. Mi
wnaeth y cwis feistr Gareth Rees ei waith yn penigamp a Delyth Price yn eu
gynorthwyo. Gweinyddwyd caws a gwin gan y chwiorydd yn ystod y noson.

